



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Crynodeb o Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Datblygu cynaliadwy ym moroedd Cymru:
Ein dull o ymdrin â chynllunio morol
yng Nghymru

Crynodeb o'r ymatebion i 'Datblygu cynaliadwy ar gyfer moroedd Cymru: Ein dull o ymdrin â chynllunio morol yng Nghymru'

Trosolwg

Ar 16 Chwefror 2011, lansiwyd ymgynghoriad o'r enw 'Datblygu cynaliadwy ar gyfer moroedd Cymru: Ein dull o ymdrin â chynllunio morol yng Nghymru' (yn Saesneg yn unig). Diben yr ymgynghoriad oedd holi sut y dylem ddatblygu cynlluniau morol yng Nghymru, yn unol â'n pwerau a'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Daeth yr ymgynghoriad i ben 11 Mai 2009.

Roedd yr ymgynghoriad yn amlinellu'n bwriad i ddatblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer y môr o gwmpas glannau Cymru a chynllun cenedlaethol ar gyfer môr mawr Cymru. Rhestrai hefyd opsiynau ar gyfer cynllunio ar lefel is-genedlaethol er mwyn ychwanegu at fanylder y cynlluniau cenedlaethol.

Cafwyd 47 o ymatebion, hynny gan y grwpiau canlynol o sefydliadau a mudiadau:

Awdurdodau Lleol	4
Asiantaethau'r Llywodraeth / Cyrff Cyhoeddus Eraill	7
Sefydliadau Addysg Bellach / Uwch / Ysgolion	1
Cyrff Proffesiynol	4
Mudiadau â Diddordeb	16
Unigolion	2
Diwydiant	13
Cyfanswm	47

Cyffredinol

Awgrymwyd mân newidiadau ffeithiol.

Dywedodd nifer o'r ymatebwyr bod y PDF rhyngweithiol sy'n dangos rhai setiau data morol y mae Llywodraeth Cymru'n eu defnyddio yn rhy gymhleth ac anhylaw. Argymhellwyd bod Llywodraeth Cymru'n defnyddio erfyn gwybodaeth ddaearyddol (GIS) o'r we yn ei le.

Nid oedd yr un ymatebydd yn anghytuno â'r trywydd a gynigir ar gyfer llunio cynlluniau morol yng Nghymru. Roedd yr ymatebwyr yn awyddus iawn gweld cyd-gynllunio ar gyfer dyfroedd y glannau a'r môr mawr.

Gofynnodd ymatebwyr o bob sector am ragor o fanylion ynghylch cynllunio is-genedlaethol, ond gyda nifer ohonynt yn awgrymu na ddylid ystyried cynlluniau ar lefel is-genedlaethol tan i fanylion y drefn cynllunio cenedlaethol gael eu cyflwyno.

Nodwyd bylchau yn y data a chynigiodd nifer o ymatebwyr y data oedd ganddynt.

Dywedodd ymatebwyr o bob sector bod angen i gynlluniau morol gyd-fynd â chynlluniau'r tir a bod angen cydweithio ag asiantaethau cyhoeddus a gweinyddiaethau eraill. Roedd yr ymatebwyr yn falch o weld yr ymrwymiad i weithio gyda'r Sefydliad Rheoli Morol yn ardaloedd y ffin.

Dywedodd ymatebwyr o nifer o sectorau y byddai cynlluniau morol yn dreth drom ar adnoddau, ac roedd rhai ohonynt yn arbennig o ofidus a fyddai Llywodraeth Cymru'n neilltuo digon o adnoddau iddynt allu: a) cynllunio'n briodol, b) llenwi'r bylchau gwybodaeth ac c) gweithio'n llawn â'r rhanddeiliaid.

Dywedodd rhai ymatebwyr ei bod yn bwysig bod cynlluniau morol yn y Deyrnas Unedig (DU) yn gyd-fynd â Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol a holwyd sut y byddai cynllun morol gofodol yn ategu'r Gyfarwyddeb.

Ni fynegodd yr un ymatebydd ei anghytundeb â'r trefniadau llywodraethu a gynigiwyd, er y gofynnwyd am fwy o fanylion. Roedd rhai'n amau a yw Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru a'r partneriaethau arfordirol rhanbarthol yn ddigon cynrychioliadol.

Thema gyffredin oedd yr angen i gysylltu â rhanddeiliaid yn fuan yn y broses.

Crynodeb o'r atebion i gwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori.

Cwestiwn 1: A ddylem roi ystyriaeth i nodweddion, adnoddau neu weithgareddau arbennig ym moroedd Cymru?

Cynigiwyd nifer o rai eraill ar gyfer pob sector. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen rhoi sylw arbennig i'r newid yn yr hinsawdd a'i gysylltu ag amddiffyn yr arfordir.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylid ehangu'r adran ynni i roi mwy o sylw i ffynonellau anadnewyddadwy – yn arbennig, chwilio am olew a nwy, dal carbon, niwclear a phŵer thermol.

Teimlai rhai ymatebwyr bod angen rhoi mwy o sylw i bwysigrwydd cadwraeth ac y dylid ychwanegu mwy o fanylion.

Cafwyd cyflwyniadau manwl gan nifer o ymatebwyr am eu sectorau yn ogystal â mwy o wybodaeth i'w defnyddio fel tystiolaeth yn y broses cynllunio morol.

C.2 A oes ffyrdd eraill i integreiddio'n well?

Roedd rhai ymatebwyr o blaid rhaglen hyfforddi ar y cyd ar gyfer swyddogion cynllunio tir Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Dywedodd un ymatebydd y dylid secondio cynllunwyr tir Llywodraeth Cymru i gael profiad o waith cynllunio morol, a *vice versa*.

Er i nifer o ymatebwyr ddweud bod angen cysylltu ag adrannau cynllunio tir a dysgu gwersi, cafwyd rhybuddion gan rai bod amgylchedd y môr yn wahanol, nad oedd modd 'impio' trefniadau cynllunio'r tir ar ardaloedd morol ac y dylai cynllunwyr morol gadw hynny mewn cof.

Cynigiodd rhai ymatebwyr bod angen newid TAN 14 i roi dyletswydd ar gynllunwyr y tir i ystyried cynlluniau morol.

Roedd cefnogaeth gref i'r syniad bod Llywodraeth Cymru'n diweddarau ei strategaeth rheoli ardaloedd morol integredig er mwyn integreiddio'n well.

Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru feithrin cysylltiadau cryf ag awdurdodau cynllunio morol eraill yn y DU a thu hwnt, ond yn arbennig â'r Sefydliad Rheoli Morol.

C.3 Pa sectorau yn eich barn chi ddylai gael eu cynnwys yn y trefniadau llywodraethu?

Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r trywydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddilyn a chefnogaeth i gynnwys buddiannau pob sector. Cynigiodd nifer o ymatebwyr ddod yn aelodau o'r grwpiau rhanddeiliaid a'r grŵp tystiolaeth forol.

Gofynnodd pysgotwyr am gael eu cynrychioli ar nifer o grwpiau gan nad oes yr un grŵp i'w cynrychioli yng Nghymru.

Gofynnodd ymatebwyr o ynni adnewyddadwy ac ynni arall am gael eu cynrychioli ar nifer o grwpiau gan fod nifer o sectorau gwahanol o fewn y sector ynni.

Roedd rhai ymatebwyr yn amau gallu Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru i fod yn grŵp rhanddeiliaid oherwydd diffyg adnoddau, ac awgrymodd rhai nad oedd y Bartneriaeth yn gytbwys o ran ei chynrychiolaeth sectorol na daearyddol.

Cwestiwn 4: Pa ddogfennau Cymreig pwysig eraill ddylai gael eu hystyried a pham?

Cafodd nifer o ddogfennau eu henwi fel rhai y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried wrth baratoi cynlluniau morol:

- Cynlluniau rheoli dalgylchoedd afon perthnasol
- Y gwaith sy'n cael ei wneud gan brosiectau Finding Sanctuary (De Orllewin Lloegr) a'r Irish Sea Marine Conservation Zone ym môr mawr Cymru
- Cynllun Datblygu Gwledig Cymru

- Digwyddiadau Cymru – Datblygu Strategaeth Digwyddiadau Mawr i Gymru (2010 - 2020)
- Cynlluniau Rheoli Safleoedd Ewropeaidd

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at bwysigrwydd dogfennau'r DU sy'n effeithio ar ddyfroedd Cymru, gan enwi Datganiadau Polisi Cenedlaethol fel enghraifft.

Cynigiwyd hefyd bod polisiau a dogfennau perthnasol yn cael eu rhestru yn ôl eu 'teip' er eglurder; dogfennau strategaeth, dogfennau sector, dogfennau lleol a dogfennau tir/gofodol.

Cwestiwn 5: Ydych chi'n credu bod angen gwybodaeth neu ddata arnom i allu cynllunio ar gyfer dyfroedd morol Cymru?

Roedd yr ymatebwyr, ar y cyfan, yn teimlo bod tystiolaeth, data a gwybodaeth am yr amgylchedd morol yn wan ar lefel y DU a Chymru a bod angen neilltuo mwy o adnoddau.

Cyfeiriodd ymatebwyr o bob sector at ddiffygion yn y sail dystiolaeth ar gyfer cynllunio morol. Nodwyd y meysydd canlynol fel rhai lle ceir bylchau dystiolaeth ynddynt: pysgodfeydd, rhywogaethau mudol, cynefinoedd, twristiaeth, hamdden, asesu morluniau a mapio gwely'r môr.

Dywedodd ymatebwyr o bob sector mor bwysig yw gwarantu ansawdd y data a gofynnodd rhai ymatebwyr i Lywodraeth Cymru gynnal archwiliad o'r data a'r wybodaeth ar ddechrau'r broses cynllunio morol.

Dywedodd ymatebwyr o rai sectorau eu bod yn poeni am lefel yr adnoddau sydd wedi'i neilltuo gan Lywodraeth Cymru a'r hyn sydd ei angen i lenwi'r bylchau dystiolaeth ar gyfer cynllunio morol. Rhybuddiwyd Llywodraeth Cymru i beidio â diystyru pwysigrwydd hyn.

Cwestiwn 6: A fedrech chi lenwi'r bylchau dystiolaeth, a sut?

Cynigiodd nifer fawr o ymatebwyr o bob sector rannu data a gwybodaeth, gyda llawer ohonynt yn rhoi manylion setiau data penodol.

Cwestiwn 7: A ydych chi'n credu bod angen cynllunio ar lefel fwy is-genedlaethol?

Ni chafwyd unrhyw anghytundeb yn yr ymatebion â'r trywydd sy'n cael ei gynnig ar gyfer cynllunio morol yng Nghymru – cynllun cenedlaethol ar gyfer dyfroedd y glannau a chynllun cenedlaethol ar gyfer y môr mawr, bob un â'i flaenoriaethau gofodol. Roedd ymatebwyr yn arbennig o awyddus i weld cyd-gynllunio ar gyfer dyfroedd y glannau a'r môr mawr.

Roedd dau ddeg ac wyth o ymatebwyr yn credu bod angen i Gymru gynllunio ar lefel mwy is-genedlaethol. Dywedodd rhai ymatebwyr na fyddai'n briodol

iddynt gynnig sylw ar bolisi Llywodraeth Cymru ond roeddynt am bwysu arni i weithio gydag awdurdodau cynllunio morol eraill yn ardaloedd y ffin.

Roedd gan nifer o ymatebwyr amod yn eu hatebion i'r cwestiwn hwn. Roeddynt yn teimlo ei bod yn anodd cynnig sylw ar faint o gynllunio is-genedlaethol sydd ei angen yng Nghymru heb wybod pa mor ddwfn a manwl fydd y cynlluniau cenedlaethol.

Gofynnodd ymatebwyr o bob sector am fwy o wybodaeth am y cynlluniau is-genedlaethol. Roedd rhai ohonynt o'r farn na ddylid ystyried cynlluniau is-genedlaethol tan ar ôl cyflwyno'r cynlluniau cenedlaethol.

Roedd rhai ymatebwyr o ddiwydiant yn gweld cysylltiad rhwng lefel y cynllunio is-genedlaethol a'r adnoddau fydd ar gael ar gyfer cynllunio morol yng Nghymru, gan nodi y byddai cynlluniau is-genedlaethol yn dreth drom ar adnoddau. Roedd rhai ymatebwyr yn rhybuddio rhag rhoi sylw i gynlluniau rhanbarthol ar draul cynlluniau cenedlaethol, gan gyfeirio at Gynllun Gofodol Cymru fel enghraifft o gynllun sydd heb esgor ar y canlyniadau a obeithiwyd oherwydd y canfyddiad nad yw'n cynnig cyfeiriad cenedlaethol.

Cwestiwn 8: Os ydych, sut hoffech ein gweld yn cynllunio ar lefel is-genedlaethol a pham?

O'r rheini oedd o blaid cynlluniau is-genedlaethol, roedd deuddeg o blaid trywydd fyddai'n canolbwyntio ar ardaloedd o weithgarwch mawr lleol, roedd chwech o blaid cynlluniau rhanbarthol ar gyfer rhannau o ardal forol Cymru ac roedd pedwar o blaid cynlluniau rhanbarthol ar gyfer ardal forol Cymru gyfan.

Cwestiwn 9: A oes ffyrdd arall o'i gwneud hi?

Roedd lleiafrif o ymatebwyr yn teimlo bod angen cyfuniad o gynlluniau rhanbarthol a chynlluniau ardaloedd gweithgarwch lleol. Fodd bynnag, dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn awyddus i beidio â llethu rhanddeiliaid â biwrocratiaeth trwy greu gormod o haenau o gynlluniau morol.

Cwestiwn 10: A ddylem feithrin perthynas agos neu ffurfiol â gwledydd neu awdurdodau eraill?

Er eu bod yn cytuno â'r rhestr a roddwyd, roedd ymatebwyr yn teimlo hefyd y byddai angen perthynas agos arnynt â gwledydd eraill sy'n pysgota yn nyfroedd Cymru ac ag awdurdodau cyffiniol (Natural England, English Heritage, Asiantaeth yr Amgylchedd, Awdurdodau Lleol Lloegr).

Dywedodd nifer o ymatebwyr bod angen perthynas glos hefyd â Fforwm Arfordir Gogledd Orllewin Lloegr ac ag is-grŵp Arfordir Bae Lerpwl.

Cwestiwn 11: Ydych chi'n cytuno â hyn? (Y Strwythur Llywodraethu)

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n fras â'r trefniadau llywodraethu dan sylw, ond roeddynt am weld mwy o fanylion.

Roeddynt yn poeni am ddau beth yn arbennig. Yn gyntaf, roedd ymatebwyr yn teimlo y dylai mwy gael bod yn aelodau o Bartneriaeth Arfordir a Môr Cymru, gyda grwpiau cynrychioli pysgotwyr yn arbennig yn bryderus nad yw'r Bartneriaeth yn cynrychioli pysgotwyr (masnachol a hamdden). Mynegwyd pryder hefyd nad yw'r Bartneriaeth yn cynrychioli buddiannau'r Gogledd. Yn ail, roedd croestoriad o ymatebwyr yn teimlo nad oedd gan Bartneriaeth Arfordir a Môr Cymru ddigon o adnoddau i allu ffurfio grŵp rhanddeiliaid at ddibenion cynllunio morol.

Cwestiwn 12: Sut yn eich barn chi y dylem geisio cael y gorau o'r partneriaethau arfordirol sy'n bod eisoes?

Roedd yr ymatebion yn canolbwyntio ar ddwy thema: partneriaethau sy'n bod eisoes a phartneriaethau newydd. Roedd ymatebwyr yn poeni nad oes gan bartneriaethau arfordirol presennol ddigon o adnoddau gan awgrymu y byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn glir iawn ynghylch beth yn union yr oedd yn gofyn i bartneriaethau rhanbarthol ei wneud. Gan sôn am eu pryderon nad yw Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru'n ddigon cynrychioliadol, mynegodd rhai ymatebwyr bryderon tebyg ynghylch partneriaethau arfordirol rhanbarthol.

Codwyd dau bryder ynghylch creu partneriaethau arfordirol newydd lle ceir bylchau ar yr arfordir. Yn gyntaf, mae partneriaethau arfordirol yn gyrff organig sy'n datblygu'n annibynnol, yn aml yn sgil un pwnc llosg neu'r angen am ddeialog yn yr ardal. Ni all Llywodraeth eu "creu". Yn ail, roedd ymatebwyr yn poeni ynghylch yr amser fyddai ei angen i greu partneriaeth arfordirol newydd lle ceir bylchau. Dywedwyd yn benodol bod posibilrwydd y bydd y cynllun morol eisoes wedi'i gwblhau erbyn bod y bartneriaeth newydd yn gweithio'n effeithiol.

Cwestiwn 13: A oes ffyrdd eraill o gysylltu â'r cyhoedd?

Gofynnodd yr ymatebwyr bod Llywodraeth Cymru'n cysylltu'n fuan ac yn llawn â'r cyhoedd wrth baratoi cynlluniau morol.

Awgrymodd ymatebwyr y gellid defnyddio amrywiaeth o gyfryngau (lleol, rhanbarthol a chenedlaethol) i godi ymwybyddiaeth am gynlluniau morol a phroblemau morol, yn ogystal ag anfon ebyst at randdeiliaid a mudiadau.

Cynigiodd ymatebwyr y dylai unrhyw weithdai sydd ar y gweill gael eu cynnal mewn manau strategol ac ar adegau gwahanol o'r dydd i sicrhau bod y bobl sydd â diddordeb ynddynt yn gallu mynd iddynt ar ôl oriau gwaith.

Camau Nesaf

Carai Llywodraeth Cymru ddiolch i'r ymatebwyr am eu sylwadau a'u syniadau. Rydym wrthi'n ystyried yr atebion i'r ymgynghoriad hwn fel rhan o raglen i ystyried y broses gynllunio ehangach, gan gynnwys cynllunio adnoddau naturiol, yr ymgynghorwyd arno fel rhan o Gynnal Cymru Fyw: Papur Gwyrdd

ar ffordd newydd o reoli adnoddau naturiol Cymru, 30 Ionawr 2012 tan 31 mai 2012.

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr i 'Datblygu cynaliadwy ar gyfer moroedd Cymru: Ein dull o ymdrin â chynllunio morol yng Nghymru'

Arolwg Ordnans
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau
Awdurdod y Diwydiant Pysgod Môr
B Bullimore
Cardigan Bay Fisherman's Association Ltd
Centrica Energy Renewable Investments Limited
Cydbwyllgor Cadwraeth Natur
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Cyngor Sir Caerdydd
Cymdeithas Gwybodaeth Ddaearyddol
Cymdeithas Porthladdoedd Cymru
Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain
Cymdeithas y Gyfraith
Cyswllt Amgylchedd Cymru
Dinas a Sir Abertawe
Dŵr Cymru
G&M Roberts Fishing Ltd
Ffederasiwn Cenedlaethol Cymdeithasau Pysgotwyr
Fforwm Arfordir Sir Benfro
Fforwm Arfordirol Gogledd Orllewin Lloegr
Grid Cenedlaethol
Grŵp Porthladdoedd Cymru
Gweinyddiaeth Amddiffyn
Horizon Nuclear Power
Llywodraeth Ynys Manaw
M Parry
MAREN Project
Natural England
Partneriaeth Aber Hafren
Partneriaeth Tirweddau Cymru
RES-Offshore
Royal Yachting Association/Cymdeithas Hwylwyr Cymru
RSPB Cymru
RWE npower Plc
RWE npower renewables Ltd
Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig
Sefydliad Cynllunio Tref Brenhinol yng Nghymru
Tidal Energy Ltd
The Port of Mostyn Ltd
World Wildlife Fund Cymru
Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed Cyf
Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Ystadau'r Goron